O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2008 Rhif 2629 (Cy. 229)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) (Diwygio) 2008

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2008 ("Gorchymyn 2008") yn pennu'r dyddiadau pan fydd y cyfnod sylfaen yn cael ei raddol gyflwyno. Mae Gorchymyn 2008 hefyd yn pennu cyfnod y cyfnod sylfaen ac mae'n rhoi effaith gyfreithiol i'r meysydd dysgu, sy'n gosod y canlyniadau dymunol a'r rhaglenni dysgu. Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn 2008 er mwyn cywiro gwall yn y testun Cymraeg.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2008 Rhif 2629 (Cy. 229)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) (Diwygio) 2008

Gwnaed *3Hydref 2008*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *7 Hydref 2008*

Yn dod i rym *28 Hydref 2008*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 102, adran 108(2) ac adran 210 o Ddeddf Addysg 2002(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**), ac wedi gwneud y cyfryw drefniadau y maent yn eu hystyried yn briodol ar gyfer ymgynghori yn unol ag adran 117 o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) (Diwygio) 2008 a daw i rym ar 28 Hydref 2008.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

2. Yn erthygl 3(1) o destun Cymraeg Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2008(**3**) yn lle "Y darpariaethau" rhodder "Mae'r darpariaethau".

(**1**) 2002 p.32.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hyn i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**3**) O.S. 2008/1732 (Cy.169).

Jane Hutt

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

03/10/08